

Hawdd ei Ddeall

Gwneud Sir y Fflint yn lle mwy teg i fwy a gweithio ynddi

Ein cynllun ar gyfer Ebrill 2016 i Mawrth 2020



**Mae hwn yn fersiwn hawdd ei ddeall o 'Cynllun Cydraddoldeb Strategol
2016-2020' Cyngor Sir y Fflint**

Ionawr 2017



Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall. Mae'r geiriau a beth maen nhw'n feddwl yn hawdd i'w darllen a'u deall.



Efallai y byddwch angen help a chefnogaeth i ddarllen a deall y ddogfen yma. Gofynnwch i rhywun rydych yn ei adnabod i'ch helpu.

Mae rhai geiriau yn anodd i'w deall efallai. Maen nhw mewn **ysgrifen glas clir** ac maen nhw wedi cael eu hesbonio yn y blwch o dan y gair.

Os ydy unrhyw un o'r geiriau yn cael eu defnyddio eto yn y llyfryn maen nhw'n cael eu dangos mewn **ysgrifen glas normal**. Os ydych yn gweld geiriau mewn **ysgrifen glas normal**, ewch i'r **Geiriau anodd** ar dudalen 23 i weld beth maen nhw'n feddwl.

Lle mae'r ddogfen yn dweud 'ni', mae hynny'n meddwl Cyngor Sir y Fflint.

I gael mwy o gopïau o'r fersiwn Hawdd ei Ddeall yma cysylltwch gyda Stephanie Aldridge:



Ffôn: 01352 702131

E-bost: stephanie.aldridge@flintshire.gov.uk

Gwefan: www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Diversity-and-Equality/Strategic-Equality-Plan.aspx



Cafodd y ddogfen yma ei gwneud yn Hawdd ei Deall gan Anabledd Dysgu Cymru gan ddefnyddio Photosymbols.

Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma.....	2
Beth ydy'r cynllun yma	4
Amcan 1: Gwell iechyd i bawb	8
Amcan 2: Gwneud yn siŵr bod pawb yn cael addysg da.....	10
Amcan 3: Bod yn deg gyda swyddi.....	13
Amcan 4: Gwneud Sir y Fflint yn ddiogel i bawb.....	15
Amcan 5: Gwneud yn siŵr bod pobl o grwpiau gwarchoddedig yn cymryd rhan yn ein cyrff cyhoeddus.....	17
Amcan 6: Cael mynediad i'n holl wasanaethau	19
Geiriau anodd.....	23

Beth ydy'r cynllun yma



Mae **Deddf Cydraddoldeb (2010)** yn dweud bod rhaid inni ysgrifennu cynllun i wneud bywyd yn fwy teg i bobl yn Sir y Fflint.

Cydraddoldeb



Deddf ydy **Deddf Cydraddoldeb (2010)** i wneud yn siŵr bod pobl yn y DU:

- yn cael eu trin yn deg
- yn cael yr un cyfle mewn bywyd
- dim yn dioddef **gwahaniaethu**.

Gwahaniaethu ydy pan mae rhywun yn eich trin yn annheg oherwydd eu bod nhw'n meddwl eich bod yn wahanol.



Mae yna rhai grwpiau o bobl sydd yn cael eu trin yn llai teg na'r rhan fwyaf. Mae angen inni feddwl yn ofalus am beth mae'r grwpiau yma ei angen i wneud bywyd yn fwy teg. Maen nhw'n cael eu galw'n **grwpiau gwarchoddedig**.

Grwpiau gwarchoddedig

Mae pobl mewn **grwpiau gwarchoddedig** yn cynnwys:



- pobl o wahanol oedran – pobl ifanc neu bobl hŷn



- pobl anabl – yn cynnwys **pobl gyda phroblemau iechyd meddwl**

Mae **pobl gyda phroblemau iechyd meddwl** angen cefnogaeth gyda'u meddyliau neu emosiynau.



- pobl sydd wedi priodi neu mewn **partneriaeth sifil**


Partneriaeth sifil ydy partneriaeth gyfreithiol rhwng 2 ddyn neu 2 fenyw. Mae hyn yn rhoi'r un hawliau cyfreithiol iddyn nhw â phâr priod.



- menywod sydd yn feichiog neu yn bwydo o'r fron



- pobl sydd yn dod o wledydd neu ddiwylliant arall – sydd yn byw mewn ffordd wahanol neu sydd â lliw croen gwahanol



- pobl o wahanol grefydd – neu heb ddim cred crefyddol



- dynion neu fenywod



- **menywod lesbaidd**

Menywod lesbaidd – menywod sydd yn hoffi menywod eraill



- **dynion hoyw**

Dynion hoyw – dynion sydd yn hoffi dynion eraill




- **pobl ddeurywiol**

Pobl ddeurywiol – pobl sydd yn hoffi dynion a menywod



- **pobl trawsrywiol**

Pobl trawsrywiol – pobl sydd wedi eu geni fel un rhyw ac sydd eisiau byw fel y rhyw arall. Er enghraifft efallai bod person sydd yn edrych fel dyn yn teimlo fel menyw y tu mewn. Mae pobl yn dweud traws hefyd.



Dyma'r ail gynllun.



Fe wnaethom gael cyfarfodydd gyda gwahanol grwpiau i edrych ar ein cynllun cyntaf. Fe wnaethon nhw ddweud ein bod wedi gwneud yn eithaf da a bod mwy o bethau roedden ni'n gallu ei wneud.



Mae'r **amcanion cydraddoldeb** yn dweud beth rydyn ni eisiau ei wneud. Maen nhw'r un fath ag yn y cynllun cyntaf gyda rhai pethau eraill inni eu gwneud.

Amcanion cydraddoldeb ydy'r pethau pwysig i wneud Sir y Fflint yn lle mwy teg i fyw ynddi.



Mae'r cynllun newydd yma yn dweud sut y byddwn yn gwneud i'r **amcanion cydraddoldeb** weithio.



Fe fyddwn ni yn edrych ar bopeth rydyn ni'n ddweud y byddwn yn eu gwneud. Fe fydd hyn yn ein helpu i gael popeth wedi ei wneud.



Mae'r cynllun newydd yn dweud beth sydd rhaid inni ei wneud erbyn Mawrth 2020.

Amcan 1: Gwell iechyd i bawb

Beth fyddwn ni'n ei wneud erbyn 2020



1. Gwneud yn siŵr bod pobl yn y **grwpiau gwarchodedig** yn cael gwell cefnogaeth iechyd.



2. Rhoi gwell cefnogaeth i bobl sydd yn defnyddio cyffuriau anghyfreithlon.

Pam mai'r pethau yma ydy'r pethau mwyaf pwysig i'w gwneud



Mae iechyd da yn bwysig i bawb. Weithiau mae gan bobl yn y **grwpiau gwarchodedig** broblemau iechyd ychwanegol.



Yn aml mae iechyd plant sydd yn derbyn gofal yn wael iawn.



Mae rhai grwpiau'n cael problemau i gael y gofal iechyd maen nhw ei angen.



Mae pobl sydd yn defnyddio cyffuriau anghyfreithlon yn gallu achosi llawer o straen i'w teuluoedd. Maen nhw hefyd yn gallu tarfu ar fywydau pobl eraill lle maen nhw'n byw.



Mae rhoi cefnogaeth dda i bobl sydd yn defnyddio cyffuriau anghyfreithlon yn gallu helpu llawer o bobl.



Sut byddwn ni'n gwneud hyn

Hyfforddi ein staff am anghenion [grwpiau gwarchodedig](#).



Torri'r amser mae'n rhaid i blant aros i gael cefnogaeth [iechyd meddwl](#).



Gwneud yn siŵr bod staff yn gwybod pa gefnogaeth mae pobl ifanc ei angen pan maen nhw'n gadael gofal. Mae hyn yn cynnwys cefnogaeth i chwilio am rhywle i fyw.



Mae pobl angen help i stopio cymryd cyffuriau. Mae angen inni wneud yn siŵr eu bod nhw'n gallu cael cefnogaeth yn gyflym.

Amcan 2: Gwneud yn siŵr bod pawb yn cael addysg da

Beth fyddwn ni'n ei wneud erbyn 2020



1. Dydy rhai plant yn y **grwpiau gwarchoddedig** ddim yn gwneud yn dda iawn yn yr ysgol. Fe fyddwn ni yn eu cefnogi i wneud yn well.



2. Gwneud yn siŵr bod pob plentyn yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol.

Pam mai'r pethau yma ydy'r pethau mwyaf pwysig i'w gwneud



Yn aml mae plant sydd yn derbyn gofal yn mynd trwy amser anodd yn eu bywydau. Maen nhw'n gallu cael llawer o newidiadau yn eu bywydau hefyd.



Dydy plant sydd yn derbyn gofal ddim bob amser yn cael yr un cyfleoedd â phlant eraill. Mae hyn yn gallu ei gwneud hi'n anodd iddyn nhw wneud yn dda yn yr ysgol.



Mae bwlio yn fwy tebygol o ddigwydd i rai plant:



- plant mewn ysgolion arbennig



- plant anabl



- plant **lesbaidd**, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol



- plant sydd yn grefyddol



- plant o **leiafrifoedd ethnig**

Lleiafrifoedd ethnig – hil arbennig o bobl. Mae yna lai ohonyn nhw nag o bobl eraill. Er enghraifft, mae pobl Indiaidd yn grŵp lleiafrif ethnig yng Nghymru.


Sut fyddwn ni yn gwneud hyn



Fe fyddwn yn gwneud yn sir bod ein cynlluniau ar gyfer ysgolion yn cael eu defnyddio'n dda.



Hyfforddiant i athrawon ar sut mae hi'n teimlo i fod yn **lesbaidd**, **hoiw**, **deurywiol** neu **drawsrywiol**. A hyfforddiant ar sut i gefnogi'r plant yma.



Ysgrifennu cynlluniau newydd i ysgolion ar:



- cael plant **trawsrywiol** yn yr ysgol

Cydraddoldeb



- bod yn deg gyda phawb.

Fe fydd pob ysgol yn defnyddio'r cynlluniau newydd yma.



Gwneud yn siŵr bod pob ysgol yn defnyddio'r un cyngor yn y canllaw 'Parchu Eraill'. Mae'r canllaw yma yn edrych ar sut i stopio plant yn y **grwpiau gwarchoddedig** rhag cael eu bwlio.

Amcan 3: Bod yn deg gyda swyddi

Beth fyddwn ni'n ei wneud erbyn 2020



1. Gwneud yn siŵr ein bod yn deg gyda phobl sydd yn gweithio inni.



2. Gwneud yn siŵr bod ein staff yn cael hyfforddiant am fod yn deg i bawb.



3. Cefnogi pobl yn y [grwpiau gwarchodedig](#) i gael swyddi a chadw eu swyddi.

Pam mai'r pethau yma ydy'r pethau mwyaf pwysig i'w gwneud

Mae'r [Ddeddf Cydraddoldeb](#) yn dweud bod rhaid inni:



- hyfforddi ein staff ynglŷn â bod yn deg



- gweld faint o bobl yn y [grwpiau gwarchodedig](#) sydd yn gweithio inni.



Fe wnaethoch chi ddweud nad ydy ein staff yn gwybod digon am fod yn deg. Maen nhw angen gwybod mwy am fod yn anabl a sut i helpu mwy o bobl anabl i ddefnyddio gwasanaethau.



Mae pobl ifanc a phobl anabl yn dal i'w chael hi'n anodd i gael swydd.



Sut fyddwn ni'n gwneud hyn

Fe fyddwn ni yn hyfforddi ein staff am fod yn deg i bawb.



Fe fyddwn ni yn edrych i weld faint o bobl o'r [grwpiau gwarchodedig](#) sydd yn gweithio inni.

Fe fyddwn ni yn cefnogi cynlluniau sydd yn helpu'r bobl yma i gael swyddi:

- pobl ifanc sydd wedi gadael gofal



- pobl ag anabledau dysgu



- pobl ifanc sydd wedi torri'r gyfraith.

Amcan 4: Gwneud Sir y Fflint yn ddiogel i bawb

Beth fyddwn ni'n ei wneud erbyn 2020



1. Fe fyddwn yn gwneud yn siŵr bod mwy o bobl yn gwybod am **drosedd casineb**.

Trosedd casineb ydy pan mae dioddefwr yn meddwl bod trosedd wedi digwydd oherwydd pwy ydyn nhw.



2. Fe fyddwn yn gwneud yn siŵr bod mwy o bobl yn deall beth ydy camdriniaeth a gwybod sut i adrodd am hynny.



3. Fe fyddwn yn edrych ar pam bod rhai oedolion yn mynd trwy **gamdriniaeth domestig** dro ar ôl tro. Fe fyddwn yn helpu'r bobl yma i aros yn eu cartrefi eu hunain.

Camdriniaeth domestig ydy camdriniaeth mewn teulu rhwng oedolion. Mae'n gallu digwydd i ddynion neu menywod. Efallai bod dyn yn taro ei wraig neu ei bartner. Efallai bod menyw yn taro ei rhieni hen.



4. Fe fyddwn yn cychwyn lle diogel i ddynion sydd yn mynd trwy **gamdriniaeth domestig**.

Pam mai'r pethau yma ydy'r pethau mwyaf pwysig i'w gwneud



Fe wnaethoch chi ddweud wrthyn ni bod **trosedd casineb** yn dal i ddigwydd



Does yna unlle i ddynion i fynd pan maen nhw'n mynd trwy **gamdriniaeth domestig**.

Sut fyddwn ni'n gwneud hyn



Fe fyddwn yn gweithio gyda gwasanaethau eraill yng ngogledd Cymru i wneud yn siŵr bod yr holl staff yn deall **trosedd casineb**.



Fe fyddwn yn edrych ar ein hyfforddiant i staff am gadw pobl yn ddiogel. Fe fyddwn yn gwneud yr hyfforddiant yn well.



Fe fyddwn yn gwneud yn siŵr bod oedolion sydd yn mynd trwy **gamdriniaeth domestig** yn cael cefnogaeth dda.

Amcan 5: Gwneud yn siŵr bod pobl o wahanol gefndiroedd yn cymryd rhan yn ein **cyrff cyhoeddus**



Mae **cyrff cyhoeddus** yn rhedeg gwasanaethau inni fel ysgolion, ysbytai a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Beth fyddwn ni'n ei wneud erbyn 2020



1. Fe fyddwn yn cael mwy o bobl o'r **grwpiau gwarchodedig** yn cymryd rhan yn ein **cyrff cyhoeddus**.

These may include being on a:



- cyngor ysgol



- grwpiau tenantiaid neu breswylwyr

- grwpiau cynllunio defnyddwyr gwasanaethau.



2. Fe fyddwn yn cael mwy o bobl o **grwpiau gwarchodedig** yn ein helpu i weld pa mor dda rydyn ni'n gwneud.

Pam mai'r pethau yma ydy'r pethau mwyaf pwysig i'w gwneud



Mae'r [Ddeddf Cydraddoldeb](#) yn dweud bod rhaid inni gael pobl o [grwpiau gwarchoddedig](#) yn ein cynghori.



Fe wnaethoch chi ddweud wrthyn ni nad oes gennym ni ddigon o bobl o'r [grwpiau gwarchoddedig](#) yn cymryd rhan.



Mae ein cynllun yn fwy tebyg o weithio pan fydd pobl sydd yn cael ei effeithio ganddo yn ein helpu.

Sut fyddwn ni'n gwneud hyn



Fe fyddwn yn anfon llyfryn i ddweud wrth bobl sut i gymryd rhan yn ein [cyrff cyhoeddus](#).



Fe fydd staff gwasanaethau cymdeithasol yn cael hyfforddiant ar sut i gynnwys pobl mewn cynllunio eu gofal eu hunain.



Fe fyddwn yn ei gwneud yn haws i gwyno pan fyddwch yn teimlo eich bod yn cael eich [gwahaniaethu](#).

Amcan 6: Ei gwneud hi'n haws i gael **mynediad** i'n holl wasanaethau



Mynediad – ei gwneud hi'n haws i bawb eu defnyddio. Er enghraifft:

- rampiau i fynd i mewn i adeilad
- gwybodaeth hawdd ei ddeall, mewn Braille neu ieithoedd eraill
- **cyfieithwyr** iaith arwyddion.

Cyfieithydd ydy rhywun sydd yn cyfieithu gwybodaeth o un iaith i'r llall.

Er enghraifft o Gymraeg llafar i iaith Arwyddion Prydeinig (BSL). Neu o iaith Arwyddion Prydeinig (BSL) i Gymraeg llafar.

Beth fyddwn yn ei wneud erbyn 2020



1. Mae gennym wasanaeth ffôn sydd yn cyfieithu unrhyw beth pan fyddwch yn siarad iaith wahanol. Rhaid inni wneud yn siŵr bod yr holl staff yn gwybod am hyn.

2. Gwneud yn siŵr bod ein holl:



- gwasanaethau



- trafnidiaeth fel bysus



- adeiladau a chartrefi

- lleoedd awyr agored.

Pam mai'r pethau yma ydy'r pethau mwyaf pwysig i'w gwneud



Rydych chi wedi dweud wrthyn ni bod y pethau yma yn bwysig.



Mae pobl anabl yn aros yn hirach am lleoedd y maen nhw'n gallu byw yn hawdd ynddyn nhw nag unrhyw un arall.

Sut fyddwn ni'n gwneud hyn




Gwneud yn siŵr bod yr holl staff yn gwybod am ein gwasanaeth cyfieithu ar y ffôn.


Gwneud yn siŵr bod pawb yn gwybod eu bod nhw'n gallu gofyn am ein taflenni mewn:



- gwahanol ieithoedd



- Braille



- Hawdd ei ddeall



- Print bras.



Cael hyfforddiant ymwybyddiaeth byddar a gwneud yn siŵr bod y staff yn gwybod sut i gael **cyfieithydd** Iaith Arwyddion Prydeinig (BSL).



Lleihau'r amser mae'n rhaid i bobl anabl aros am newidiadau i'w cartrefi.



Hyfforddi ein staff ar anghenion **grwpiau gwarchodedig**.

Geiriau anodd

Amcanion cydraddoleb

Amcanion cydraddoldeb ydy'r pethau pwysig i wneud Sir y Fflint yn lle mwy teg i fyw ynddi.

Camdriniaeth domestig

Camdriniaeth domestig ydy camdriniaeth mewn teulu rhwng oedolion. Mae'n gallu digwydd i ddynion neu menywod. Efallai bod dyn yn taro ei wraig neu ei barnter, Efallai bod menyw yn taro ei rhieni hen.

Cyrff cyhoeddus

Mae cyrff cyhoeddus yn rhedeg gwasanaethau inni fel ysgolion, ysbytai a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Cyfieithydd

Person ydy cyfieithydd sydd yn cyfieithu gwybodaeth o un iaith i'r llall. Er enghraifft o Gymraeg llafar i iaith Arwyddion Prydeinig (BSL) Neu o iaith Arwyddion Prydeinig (BSL) i Gymraeg llafar.

Deddf Cydraddoldeb (2010)

Mae Deddf Cydraddoldeb (2010) yn ddeddf i wneud yn siŵr bod pobl yn y DU yn:

- cael eu trin yn deg
- cael yr un cyfle mewn bywyd
- dim yn dioddef gwahaniaethu

Deurywiol

Pobl sydd yn hoffi dynion a menywod.

Dyn hoyw

Dynion sy'n hoffi dynion eraill.

Gwahaniaethu

Gwahaniaethu ydy pan fyddwch yn cael eich trin yn annheg.

Lleiafrifoedd ethnig

Hil arbennig o bobl.

Menyw lesbaidd

Menywod sydd yn hoffi menywod eraill.

Mynediad

Mynediad – ei gwneud hi'n hawdd i bobl ag anableddau eu defnyddio. Er enghraifft:

- rampiau i fynd i mewn i adeilad
- gwybodaeth hawdd ei ddeall, mewn Braille ac ieithoedd eraill
- cyfieithwyr iaith arwyddion

Partneriaeth sifil

Partneriaeth sifil ydy partneriaeth gyfreithiol rhwng 2 ddyn neu 2 fenyw. Mae hyn yn rhoi'r un hawliau cyfreithiol iddyn nhw â phâr priod.

Problemau iechyd meddwl

Pan mae pobl angen cefnogaeth gyda'u meddyliau ac emosiynau.

Trawsrywiol

Pobl sydd wedi cael eu geni fel un rhyw ac sydd eisiau byw fel y rhyw arall. Er enghraifft efallai bod person sydd yn edrych fel dyn yn teimlo fel menyw y tu mewn. Mae pobl hefyd yn dweud traws.

Trosedd casineb

Trosedd casineb ydy pan mae dioddefwr yn meddwl bod trosedd wedi digwydd oherwydd pwy ydyn nhw.